OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 366 (Cy. 88)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Mawrth 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Mawrth 2019.

### Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018

**2.** Ym mharagraff 9(3)(a) o Atodlen 7 i Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018(**4**), yn lle "yn dilyn" rhodder "cyn".

(**1**) O.S. 2008/1792.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).
(**4**) O.S. 2018/968 (Cy. 195).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 9(3)(a) o Atodlen 7 i Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 (O.S. 2018/968 (Cy. 195)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.